# Bwrdd Cynghori Anabledd

## Yn bresennol - 8

## Diweddariad

Codwyd pryderon ynghylch Hybiau myfyrwyr anhygyrch a chyfathrebu gwael ynglŷn â nhw, dryswch ynglŷn â rolau cefnogi, a phroblemau ynglŷn â hygyrchedd ar y campws. Tynnwyd sylw at brosesau estyniad llym, ffurflenni cyfyngol, a rhwystrau parhaus i fyfyrwyr anabl a rhyngwladol gan y cyfranogwyr.

**Camau**

Mae'r camau a argymhellir yn cynnwys rhoi canllaw clir ar gyfer rolau cefnogi at ei gilydd, gwella cyfathrebu ynghylch Hybiau Myfyrwyr a hygyrchedd, mynd i'r afael â phroblemau llety, adolygu amgylchiadau arbennig, a thrwsio ffurflenni sy'n atal sawl cyflwr.

## Materion Academaidd

Codwyd pryderon ynghylch amserlennu anhygyrch, gosodiadau anghyson ar y Bwrdd Du, diffyg recordio seminarau, cefnogaeth annigonol gydag apeliadau, ac ansicrwydd ynghylch defnydd cynorthwyol ar ddeallusrwydd artiffisial. Mae'r camau a argymhellir yn cynnwys adolygu amserlennu a safonau'r Bwrdd Du, ystyried recordio seminarau a chyfarwyddyd ar apeliadau, ac egluro polisi ar ddeallusrwydd artiffisial.

## Llety

Codwyd pryderon ynghylch hygyrchedd gwael mewn llety ac o'i amgylch, gan gynnwys parcio ar y palmant, mynediad cyfyngedig i gerbydau brys, rhwystrau amgylcheddol, tai hygyrch anghyson, a diffyg gwybodaeth glir i fyfyrwyr Mae'r camau yn cynnwys gwella mynediad a seilwaith, arolygu hygyrchedd llety, cynyddu tai wedi'u haddasu, a sicrhau gwell wybodaeth ac ymwybyddiaeth ymysg contractwyr.

## Ar y campws

- Grisiau heb eu paentio'n wyn a melyn - y tu allan i'r adran wleidyddiaeth ryngwladol. Mae'n anodd i bobl fynd lawr y grisiau wrth ddisgyn y campws.
    - Camau - gweithio gyda'r swyddogion anabl a phaentio'r grisiau

- Rheiliau yn simsan, yn rhy uchel, ac yn fetel
    - Cam - gosod rheiliau
- Does dim ffrithiant ar y grisiau metel wrth Ganolfan y Celfyddydau dim mwy.

## Yn y Dref

- Diffyg swyddi myfyrwyr mawr; Gyrfaoedd Aber yn anodd ei defnyddio ac yn arwain at gael eich gwrthod gan amlaf.
- Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr eisiau gweithio, ond bod cyn lleied o swyddi; swyddi ar y campws yn fach ac yn cynnig sifftiau byr rhybudd.
- Rhwystrau trafnidiaeth: llwybr anniogel (y ffordd ddeuol i Fferm), gwybodaeth aneglur am drafnidiaeth, a chymorth cyfyngedig ar gyfer myfyrwyr anabl.
- Pryderon hygyrchedd a chynhwysiant: sôn fod myfyrwyr anghydffurfiol o ran rhywedd yn cael eu hannog i beidio â defnyddio'r toiledau anabl er eu bod yn meddu ar allweddi RADAR.

## Wisdom Wellbeing

Codwyd pryderon ynghylch sut mae data Wisdom Wellbeing yn cael ei rannu a'i wneud yn ddi-enw, yn ogystal â chwestiynau ynghylch fforddadwyedd adnoddau ac addasrwydd deallusrwydd artiffisial yn cael ei gyflwyno fel therapi.

## AccessAble

Codwyd pryderon ynghylch peidio â hysbysebu'r app yn iawn a phrofi anawsterau technegol. Mae'r camau a argymhellir yn cynnwys gwella hyrwyddo, diweddaru gwybodaeth, a'i gwneud yn rhan o adnoddau'r campws, a chasglu barn trwy grŵp ffocws yn y dyfodol.